
**Rhif**: **5.7**

**Rhif y Cais / Application Number : C16/0281/42/LL**

Cynllun lleoliad ar gyfer adnabod y safle yn unig. Dim i raddfa.
Location Plan for identification purposes only. Not to scale.



| | |
| --- | --- |
| Cais Rhif: | C16/0281/42/LL |
| Dyddiad Cofrestru: | 29/03/2016 |
| Math y Cais: | Llawn - Cynllunio |
| Cymuned: | Nefyn |
| Ward: | Morfa Nefyn |
| Bwriad: | CAIS DIWYGIEDIG I GREU SAFLE CARAFANAU TEITHIOL AR GYFER 18 CARAFAN YNGHYD AG ADEILADU BLOC TOILEDAU/CAWOD, GWELLIANNAU I FYNEDFA A GOSOD TANC SEPTIG |
| Lleoliad: | CEFN EDEYRN, EDERN, PWLLHELI, LL536YX |

| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | CANIATÁU GYDAG AMODAU |
| --- | --- |

## 1. Disgrifiad:

1.1 Mae'r cais yn un ar gyfer safle carafanau teithiol newydd ar gyfer lleoli 18 o garafanau ynghyd ag adeiladu adeilad ar gyfer bloc cawod / toiledau. Cais diwygiedig yw hwn yn dilyn tynnu cais C15/1238/42/LL yn ôl. Roedd y cais hwnnw am gyfanswm o 27 o unedau teithiol. Byddai'r bloc cawod / toiledau yn cynnwys ystafell olchi a bwriedir gorffen y waliau allanol gyda chwipiad lleol a dalennau dur o liw gwyrdd i'r to. Bwriedir hefyd osod tanc septig fel rhan o'r cais. Byddai'r 27 carafán deithiol yn cael eu lleoli ger ffiniau'r safle a'r bloc toiledau / cawod yn cael ei leoli ar ochr deheuol y safle. Bwriedir defnyddio rhan fwyaf gogleddol y cae fel ardal mwynderol ar gyfer defnyddwyr y safle. Fel rhan o'r cais bwriedir atgyfnerthu rhannau o'r ffiniau drwy blannu ychwanegol a fyddai'n cynnwys rowen, draenen wen, draenen ddu, onnen a chelyn. Bwriedir hefyd wneud gwelliannau i'r fynedfa bresennol trwy ostwng uchder y clawdd i'r dwyrain i 0.9 medr.

1.2 Mae'r safle wedi ei leoli yng nghefn gwlad ac o fewn Ardal Gwarchod y Dirwedd ac o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol. Ceir cyfuniad o wrychoedd a choed yn amgylchynu'r safle. Mae'r safle ei hun yn gymharol wastad a lleolir adeiladau amaethyddol a thŷ annedd yr ymgeisydd tua'r de o'r safle. Ceir mynediad i'r safle ar hyd trac oddi ar y ffordd ddosbarth 3 sydd wedi ei lleoli tua'r de orllewin o'r safle. Oddeutu 115 medr i'r de orllewin o'r safle ceir safle carafanau teithiol Mount sydd gyda hawl am 20 carafán deithiol ac oddeutu 80 medr i'r gorllewin mae Tyn Lon sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio yn Rhagfyr 2014 i leoli 15 carafán deithiol ar y tir. Oddeutu 400 medr i'r dwyrain o'r safle mae Ardal Cadwraeth Arbennig Corsydd Llyn a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Cors Geirch.

1.3 Derbyniwyd Datganiad Dyluniad a Mynediad a Datganiad Ieithyddol a Chymunedol fel rhan o'r cais.

1.4 Cyflwynir y cais i Bwyllgor gan ei fod yn ymwneud gyda mwy na 5 carafán.

## 2. Polisïau Perthnasol:

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Unedol.

2.2 Yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'n ofynnol i'r Cyngor ymgymryd â datblygu cynaliadwy yn ogystal â chymryd pob cam rhesymol

wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r amcanion datblygu cynaliadwy (neu lesiant). Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015, ac wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Ystyrir na fyddai unrhyw effaith sylweddol nac annerbyniol ar gyflawni'r amcanion llesiant o ganlyniad i'r argymhelliad arfaethedig.

2.3 **Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:**

POLISI A2 - GWARCHOD GWEAD CYMDEITHASOL, IEITHYDDOL A DIWYLLIANNOL CYMUNEDAU - Diogelu cydlyniad cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol cymunedau rhag niwed arwyddocaol oherwydd maint, graddfa, neu leoliad cynigion.

POLISI B10 – DIOGELU A CHYFOETHOGI ARDALOEDD GWARCHOD Y DIRWEDD - Yn diogelu a chyfoethogi Ardaloedd Gwarchod y Tirlun drwy sicrhau fod yn rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn anelu i osgoi niwed arwyddocaol i nodweddion cydnabyddedig.

POLISI B12 – GWARCHOD TIRWEDDAU, PARCIAU A GERDDI HANESYDDOL - Gwarchod tirweddau, parciau a gerddi ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru os byddant yn achosi niwed arwyddocaol i'w cymeriad, eu hedrychiad neu eu gosodiad.

POLISI B15 – GWARCHOD SAFLEOEDD CADWRAETH NATUR O BWYSIGRWYDD RHYNGWLADOL - Gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi niwed arwyddocaol i gyfanrwydd safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd rhyngwladol oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i reoli, mwyhau a diogelu nodweddion cydnabyddedig safleoedd o'r fath.

POLISI B16 - GWARCHOD SAFLEOEDD CADWRAETH NATUR O BWYSIGRWYDD CENEDLAETHOL - Gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi niwed arwyddocaol i safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd cenedlaethol oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod, mwyhau a rheoli nodweddion cydnabyddedig y safleoedd.

POLISI B22 - DYLUNIAD ADEILADAU - Hyrwyddo dyluniad adeiladau da drwy sicrhau fod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu nodweddion a chymeriad cydnabyddedig y dirwedd a'r amgylchedd leol.

POLISI B23 – MWYNDERAU - Diogelu mwynderau'r gymdogaeth leol drwy sicrhau bod rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig a mwynderau'r ardal leol.

POLISI B25 - DEUNYDDIAU ADEILADU - Gwarchod cymeriad gweledol trwy sicrhau fod yn rhaid i ddeunyddiau adeiladu fod o safon uchel sy'n gweddu i gymeriad ac edrychiad yr ardal leol.

POLISI B27 - CYNLLUNIAU TIRLUNIO - Sicrhau fod cynigion a ganiateir yn ymgorffori tirlunio meddal/caled o safon uchel sy'n briodol ar gyfer y safle ac sy'n ystyried cyfres o ffactorau sy'n anelu i osgoi niwed i nodweddion cydnabyddedig.

POLISI CH33 – DIOGELWCH AR FFYRDD A STRYDOEDD - Caniateir cynigion datblygu os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol sydd yn ymwneud a'r fynedfa gerbydau, safon y rhwydwaith ffyrdd presennol a mesurau tawelu traffig.

POLISI D19 - SAFLEOEDD NEWYDD AR GYFER CARAFANAU TEITHIOL, GWERSYLLA AC UNEDAU TEITHIOL - Caniatáu cynigion i ddatblygu safleoedd carafanau teithiol, gwersylla, neu, unedau teithiol newydd os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol yn ymwneud gyda dyluniad, gosodiad, gwedd a lleoliad y datblygiad, materion traffig, cyfyngu defnydd yr unedau ac effaith cronnol ar yr ardal leol.

Canllaw Cynllunio Atodol : Llety Gwyliau (Gorffennaf 2011)

2.3 **Polisïau Cenedlaethol:**

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, Ionawr 2016)
Nodyn Cyngor Technegol 13 – Twristiaeth
Nodyn Cyngor Technegol 18 – Trafnidiaeth

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 C15/1238/42/LL - Creu safle carafanau teithiol ar gyfer 27 o unedau ynghyd ac adeiladu bloc toiledau - Tynnwyd yn ôl gan yr ymgeisydd ar 16 Chwefror 2016.

**4. Ymgynghoriadau:**

Cyngor Cymuned/Tref: Heb eu derbyn.

Uned Drafnidiaeth: Cyfeiriaf at y cais uchod a chadarnhaf nad oes gwrthwynebiad mewn egwyddor, gan yr Uned Drafnidiaeth i'r bwriad.

Mae'r bwriad i ostwng uchder y clawdd deheuol i ddim uwch nag 900mm yn dderbyniol, ond i ddiogelu'r gwelededd dros y tymor hir argymhellir 'capio' pen y clawdd er mwyn atal tyfiant pellach yn y dyfodol.

Nid yw'n hollol glir o'r cynlluniau os yw'r fynedfa yn cynnwys radiws 6m i ochr deheuol ac argymhellir fod yr ymgeisydd yn addasu'r fynedfa i ddarparu hynny os nad yw'n bodoli'n bresennol. Mae'r tir cyfagos o fewn perchnogaeth yr ymgeisydd ac felly tybir nid oes rhwystr i'w cyflawni.

Argymhellir hefyd lledu'r 15 medr cyntaf y trac mynedfa er mwyn darparu lled ddigonol i ddau gerbyd a charafán i basio'i gilydd heb angen cefnu allan i'r briffordd, ac unwaith eto tybir fod y tir ym mherchnogaeth yr ymgeisydd ac felly nid oes rhwystr i'w gyflawni.

Argymhellaf gynnwys amodau priodol ar gyfer yr uchod sef darparu mynedfa ag radiws 6 medr naill ochr, gostwng uchder y clawdd i ddiogelu gwelededd digonol, ac i ledu'r 15m cyntaf o'r trac mynedfa i ganiatáu dau gerbyd i basio'r ddirwystr.

Cyfoeth Naturiol Cymru: Yn ein barn ni nid yw'r bwriad yn debygol o gael effaith andwyol ar unrhyw un o'r nodweddion a restrir.

**Safleoedd Gwarchodedig**
Mae’r datblygiad arfaethedig tua 400m i ffwrdd oddi wrth safleoedd gwarchodedig Ardal Cadwraeth Arbennig Corsydd Llyn, RAMSAR Corsydd Môn a Llyn a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Cors Geirch ac felly nid yw’r datblygiad arfaethedig yn debygol o gael effaith andwyol ar unrhyw un o’r diddordeb a restrwyd.

**Tirweddau Gwarchodedig**
Mae’r datblygiad arfaethedig tua 2km i ffwrdd o AHNE Llyn. Felly nid yw’r datblygiadau arfaethedig yn debygol o gael effaith andwyol ar unrhyw un o’r diddordeb a restrir.

**Rhywogaeth dan Warchodaeth**
Llygod y Dŵr
Er bod cofnodion o lygod y dŵr yn yr ardal gyfagos, nid ydym yn credu y bydd y cynigion hyn yn cael effaith sylweddol ar y rhywogaeth hon.

Ystlumod
Argymell eich bod yn cysylltu gydag ecolegydd eich Awdurdod ynghylch a oes angen arolwg ystlumod.

**Traeniad Aflan**
Angen Trwydded Amgylcheddol oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y system draenio breifat aflan cysylltiedig.

I gloi, mae Cyfoeth Naturiol Cymru o’r farn bod y datblygiad yn annhebygol o gael effaith ar y nodweddion a restrir uchod. Felly, ni fyddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwrthwynebu’r cais.

Dŵr Cymru: Dim gwrthwynebiad i’r bwriad.

Uned Gwarchod y Cyhoedd: Heb eu derbyn.

Uned Bioamrywiaeth: Nid oes gwrthwynebiad i’r cais yma ond hoffwn yr amod isod er mwyn gwarchod gwrychoedd a chloddiau:-

1. Ni ddylai coed neu lwyni gael eu torri ar y safle heb ganiatâd ysgrifenedig gan yr adran cynllunio.

Swyddog Carafanau: Nid oes sylwadau ar y cais. Os bydd y cais yn llwyddiannus bydd angen i’r ymgeisydd gysylltu gyda Swyddog Trwyddedu Safleoedd Carafanau Cyngor Gwynedd i wneud cais am drwydded safle. Bydd rhaid i’r safonau gydymffurfio gyda safonau model carafanau teithiol.

Swyddog Tan: Dim sylwadau am y cais o safbwynt mynediad ar gyfer cyfarpar tan a dŵr.

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Daeth y cyfnod hysbysebu i ben a derbyniwyd gohebiaeth yn gwrthwynebu ar sail:

- Wedi cyflwyno sylwadau ar y cais blaenorol yn nodi pryderon am effaith cronnus gweledol safleoedd carafanau a hefyd am y cynnydd mewn traffig yn defnyddio ffyrdd cul.
- Y cais presennol am nifer lai o unedau a hyn i'w groesawu oherwydd y lleihad mewn effaith weledol y safle a hefyd i raddau effaith ar draffig lleol.
- Yn cwestiynu'r defnydd o'r term carafanau tymhorol gan fod yr ymgeisydd wedi cyfeirio at 12 carafán dymhorol a 6 carafán deithiol.

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**Egwyddor y Datblygiad**

5.1 Mae polisi D19 yn caniatáu cynigion i ddatblygu safleoedd carafanau teithiol ac unedau teithiol newydd os cydymffurfir â'r cyfan o'r meini prawf a nodir. Yn eu mysg yw'r angen bod dyluniad, gosodiad a gwedd y datblygiad o safon uchel a'i fod wedi ei leoli mewn man anymwthiol, wedi ei guddio'n effeithiol gan nodweddion tirwedd bresennol a/neu ble gellir cymhathu unedau teithiol yn hawdd â'r dirwedd mewn modd nad yw'n achosi niwed arwyddocaol o ansawdd gweledol y dirwedd; bod y safle yn agos at rwydwaith priffyrdd ble gellir darparu mynediad digonol; y defnyddir y safle at ddibenion teithiol yn unig; ac na fydd y bwriad y tu hwnt i allu rhesymol y cyffiniau i gynnwys y datblygiad wrth ystyried unrhyw effaith gronnol safleoedd carafanau teithiol presennol.

5.2 Mae'r safle yn gymharol wastad ac yn ei ffurf bresennol yn weddol guddiedig gan fod gwrychoedd a choed yn amgylchynu'r safle. Byddai'r unedau wedi eu gosod mewn rhes ger ffiniau'r safle. Byddai'r gwrychoedd a choed presennol felly yn fodd o gysgodi a sgrinio'r unedau gan amgáu'r rhan helaeth o'r unedau o'r golygfeydd amlycaf. Ystyrir y byddai'r dirffurf naturiol a'r adeiladau fferm hefyd yn cuddio'r datblygiad. Credir bod y cynllun gerbron o ddyluniad addas, a'r adeilad a'r unedau wedi eu gosod yn y mannau na fyddai'n ymwthio'n sylweddol i'r dirwedd. Ni ystyrir y byddai'r bwriad yn achosi niwed arwyddocaol i ansawdd gweledol y dirwedd ac fel y bydd y tirlunio ychwanegol a fwriedir yn datblygu ac aeddfedu byddai effaith gweledol y bwriad yn lleihau. Ystyrir fodd bynnag pe bai'r cais yn dderbyniol yng nghyd destun pob polisi perthnasol arall y byddai'n briodol cynnwys amod i sicrhau tirlunio addas o fewn y safle er mwyn gwella ei wedd a'i ansawdd i ddefnyddwyr ond hefyd o ran ei fod yn ychwanegu at y tirlunio a fyddai'n fodd o'i gymhathu yn well i'r dirwedd.

5.3 Mae maen prawf 2 o Bolisi D19 yn gofyn fod y safle'n agos at y rhwydwaith priffyrdd a bod bosibl darparu mynediad digonol heb achosi niwed arwyddocaol i gymeriad a nodweddion y dirwedd. Mae paragraff 34 o Ganllaw Cynllunio Atodol Llety Gwyliau yn datgan ei bod yn bwysig fod safleoedd newydd yn cael eu lleoli mor agos ag y bo modd i'r prif rwydwaith priffyrdd (hy dosbarth A a B) yn arbennig y safleoedd hynny sy'n bwriadu dod allan i ffyrdd gwledig di-ddosbarth. Mae'r prif rwydwaith ffyrdd, sef y B4417 sy'n teithio drwy ganol pentref Edern, wedi ei lleoli oddeutu 1km i'r gogledd o'r fynedfa i'r safle. Golyga hyn y byddai gofyn i'r holl gerbydau a fyddai'n tynnu carafan deithio am 1km ar hyd ffordd ddosbarth tri sydd

yn wledig ei natur er mwyn cyrraedd y fynedfa sy'n arwain i'r safle carafanau ei hun. Byddai'n bosibl dadlau felly nad yw'r safle'n agos i'r rhwydwaith ffyrdd. Fodd bynnag o ystyried nad oes gwrthwynebiad i'r bwriad ar sail y defnydd o'r ffordd gan yr Uned Drafnidiaeth ni ystyrir y byddai'n rhesymol gwrthod y cais ar y sail yma. Yn ei gyflwr presennol mae'r fynedfa gyda'r ffordd sirol yn is-safonol a ni cheir gwelededd addas tuag at y de. Mae bwriad fel rhan o'r cais i addasu'r fynedfa drwy ostwng lefel y clawdd i'r de i uchder o 0.9 medr. Mae'r Uned Drafnidiaeth hefyd wedi argymell amodau i gael radiws o 6 medr naill ochr i'r fynedfa, capio'r clawdd i atal tyfiant pellach ac i ledu'r 15 medr cyntaf o'r trac mynedfa i ganiatáu i ddau gerbyd i basio ei gilydd yn ddirwystr. Ystyrir y byddai'n bosibl gwneud y newidiadau yma i'r fynedfa a'r ffordd fynediad mewn modd ble na fyddai'n achosi niwed arwyddocaol i gymeriad a nodweddion y dirwedd. Ystyrir felly fod y bwriad yn ei ffurf bresennol yn dderbyniol o safbwynt maen prawf 2 o Bolisi D19.

5.4 Gofyn maen prawf 3 o Bolisi D19 y defnyddir y safle ar gyfer dibenion teithiol yn unig ac eir â'r unedau oddi ar y safle yn ystod y cyfnodau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. Mae'r Datganiad Dyluniad a Mynediad a gyflwynwyd fel rhan o'r cais wedi cyfeirio at y ffaith fod bwriad i 12 o'r lleiniau fod fel lleiniau unedau teithiol tymhorol ble byddai'r unedau yn dod i'r safle ar ddechrau'r tymor ac yna yn gadael ar y diwedd. Bwriedir i'r 6 llain arall fod ar gyfer gwir unedau teithiol. Nid yw unedau teithiol tymhorol yn cael ei hyrwyddo ym mholisi D19 CDUG nag ychwaith yn y Canllaw Cynllunio Atodol : Llety Gwyliau. Er bod yr ymgeisydd wedi cyfeirio at y ffaith fod rhai o'r lleiniau i fod yn rhai teithiol tymhorol byddai'n bosibl rhoddi amod ar unrhyw ganiatâd cynllunio i sicrhau mai at ddibenion teithiol yn unig y bydd y safle yn cael ei ddefnyddio. Os rhoddir amod o'r fath ystyrir y byddai'r bwriad yn dderbyniol o safbwynt maen prawf 3 o Bolisi D19.

5.5 Mae maen prawf 4 o Bolisi D19 yn datgan gan gadw mewn cof effaith gronnol safleoedd carafanau teithiol, gwersylla ac unedau teithiol presennol sydd wedi'u cymeradwyo yn y cyffiniau, na fydd y datblygiad arfaethedig y tu hwnt i allu rhesymol y cyffiniau (e.e. amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol, y rhwydwaith ffyrdd, mwynderau ac ati) i gynnwys datblygiadau o'r fath.

5.6 Rhaid cydnabod fod rhai ardaloedd yng Ngwynedd eisoes a dwysedd uchel o safleoedd gwyliau sydd yn gallu rhoi straen ar allu rhesymol y cyffiniau i gynnwys rhagor o ddatblygiadau o'r fath. Mae'r bwriad yma ar gyfer creu safle carafanau teithiol newydd ar gyfer 18 uned. Yn bresennol mae safle carafanau teithiol ar gyfer 20 uned yn Mount oddeutu 115 medr i'r de orllewin. Hefyd mae caniatâd cynllunio wedi ei roddi yn Rhagfyr 2014 ar gyfer safle o 15 carafan deithiol yn Tyn Lon oddeutu 80 medr i'r gorllewin o'r safle. Yn ychwanegol i hyn mae yna safle carafanau sefydlog Cae'r Odyn wedi ei leoli oddeutu 300 medr i'r gogledd orllewin o'r safle sydd gyda hawl am 107 o unedau. Mae'r cais presennol ar gyfer 18 uned deithiol ac mae hyn yn lleihad mewn 9 uned deithiol o gais C15/1238/42/LL gafodd ei dynnu yn ôl. Roedd yr Uned Drafnidiaeth ar y cais hwnnw wedi lleisio pryder fod y nifer o 27 uned yn ormodol ar ben y niferoedd oedd wedi eu caniatáu ar safleoedd eraill cyfagos i'r safle yma. Roedd pryder felly yn bodoli am gynyddu'r nifer o draffig fyddai'n defnyddio'r rhwydwaith ffyrdd lleol a'r gwrthdaro posibl rhwng cerbydau a'i gilydd a hefyd rhwng cerbydau a cherddwyr. Fodd bynnag, yn sgil lleihau'r niferoedd i 18 o unedau teithiol nid yw'r un pryderon ffyrdd wedi cael eu hadnabod yn sylwadau'r Uned Drafnidiaeth. Nid oes gwrthwynebiad gan yr Uned Drafnidiaeth i'r bwriad ac ystyrir felly eu bod yn ystyried y ffyrdd lleol yn ddigonol i ymdopi gyda'r niferoedd o unedau teithiol sy'n desun y cais presennol. Ystyrir felly yn yr achos yma fod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt maen prawf 4 o Bolisi D19 CDUG.

**Effaith ar fwynderau gweledol yr ardal**

5.7 Un o brif amcanion polisi B10 yw diogelu a chyfoethogi Ardaloedd Gwarchod y Dirwedd a sicrhau bod datblygiadau yn cael eu hintegreiddio yn dderbyniol gyda'r dirwedd. Fel nodwyd eisoes ni ystyrir fod y safle yn rhy ymwthiol yn y tirlun, a hynny oherwydd lleoliad y carafanau a ffiniau aeddfed presennol. Ni ystyrir y byddai'r bwriad yn achosi niwed arwyddocaol i ansawdd gweledol y dirwedd ac fel y byddai'r gwrychoedd ychwanegol yn aeddfedu byddai effaith y bwriad yn lleihau. Ystyrir fodd bynnag pe caniateir y cais y byddai'n briodol cynnwys amod i sicrhau tirlunio addas o fewn y safle er mwyn gwella ei wedd a'i ansawdd i ddefnyddwyr ond hefyd o ran ei fod yn ychwanegu at y tirlunio a fyddai'n fodd o'i gymhathu yn well i'r dirwedd. Yn sgil hyn ni ystyrir y byddai'r safle carafanau teithiol yn sefyll allan yn amlwg yn y dirwedd a ni fyddai'n cael effaith andwyol ar yr Ardal Gwarchod y Dirwedd.

5.8 Mae'r cynlluniau a gyflwynwyd yn dangos bwriad i atgyfnerthu rhannau o'r ffiniau drwy blannu ychwanegol a fyddai'n cynnwys rowen, draenen wen, draenen ddu, onnen a chelyn. Fel rhan o'r cais bwriedir hefyd adeiladu bloc toiledau / cawod yn rhan ddeheuol y safle. Byddai'r adeilad gyda tho brig wedi ei orffen gyda dur proffil lliw gwyrdd tywyll. Byddai'r waliau allanol i'w chwipio. Yr adeilad yn ymddangos yn dderbyniol o safbwynt ei raddfa, ei faint, ffurf a lleoliad. Yn sgil ei leoliad ni ystyrir y byddai'n sefyll allan yn y tirlun sydd wedi ei ddynodi yn ardal gwarchod y tirlun. O ganlyniad ystyrir bod y bwriad yn cydymffurfio gyda Pholisi B10, B22, B25 a B27 CDUG.

5.9 Lleolir y safle o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llyn ac Enlli. Mae Polisi B12 yn datgan y rhoddir ystyriaeth i'r wybodaeth am y tirweddau hanesyddol pan asesir effaith cynigion sydd ar y fath raddfa ac mor fawr fel y byddent yn cael effaith fwy nag effaith leol arnynt. O ran ei leoliad a'i faint ystyrir mai yn lleol y byddai effaith y bwriad ac na fyddai'n cael effaith ehangach ar y dirwedd hanesyddol. Felly, ni ystyrir fod y bwriad yn groes i Bolisi B12 CDUG.

**Materion Trafnidiaeth**

5.10 Mae'r prif rwydwaith ffyrdd, sef y B4417 sy'n teithio drwy ganol pentref Edern, wedi ei lleoli oddeutu 1km i'r gogledd o'r fynedfa i'r safle. Golyga hyn y byddai gofyn i'r holl gerbydau a fyddai'n tynnu carafan deithio am 1km ar hyd ffordd ddosbarth tri sydd yn wledig ei natur er mwyn cyrraedd y fynedfa a'r trac sy'n arwain i'r safle carafanau ei hun. Mae'r ffordd yma hefyd yn gwasanaethu safle carafanau teithiol Mount sydd gyda 20 uned deithiol ac mae hefyd caniatâd wedi ei roi ar gyfer 15 carafan deithiol yn Tyn Lon. Byddai'r ffordd ddosbarth 3 o Edern i fynedfa'r safle yn gwasanaethu'r safleoedd carafanau teithiol sydd gyda chaniatâd ynghyd ar safle arfaethedig yma. Yn ychwanegol i'r safleoedd carafanau teithiol yma mae'r ffordd hefyd yn cael ei defnyddio gan ddefnyddwyr safle carafanau sefydlog Cae'r Odyn. Mae'r cais presennol ar gyfer 18 uned deithiol ac mae hyn yn lleihad mewn 9 uned deithiol o gais C15/1238/42/LL gafodd ei dynnu yn ôl. Roedd yr Uned Drafnidiaeth ar y cais hwnnw wedi lleisio pryder fod y nifer o 27 uned yn ormodol ar ben y niferoedd oedd wedi eu caniatau ar safleoedd eraill cyfagos i'r safle yma. Roedd pryder felly yn bodoli am gynyddu'r nifer o draffig fyddai'n defnyddio'r rhwydwaith ffyrdd lleol a'r gwrthdaro posibl rhwng cerbydau a'i gilydd a hefyd rhwng cerbydau a cherddwyr. Fodd bynnag, yn sgil lleihau'r niferoedd i 18 o unedau teithiol nid yw'r un pryderon ffyrdd wedi cael eu hadnabod yn sylwadau'r Uned Drafnidiaeth. Ystyrir felly fod y rhwydwaith ffyrdd yn ddigonol i ymdopi gyda'r nifer niferoedd o unedau teithiol sy'n desun y cais presennol.

5.11 Yn ei gyflwr presennol mae'r fynedfa gyda'r ffordd sirol yn is-safonol a ni cheir gwelededd addas tuag at y de. Mae bwriad fel rhan o'r cais i addasu'r fynedfa drwy ostwng lefel y clawdd i'r de i uchder o 0.9 medr. Nid yw'r Uned Drafnidiaeth yn gwrthwynebu'r bwriad ond yn argymell amodau i gael radiws o 6 medr naill ochr i'r fynedfa, capio'r clawdd i atal tyfiant pellach ac i ledu'r 15 medr cyntaf o'r trac mynedfa i ganiatáu i ddau gerbyd i basio ei gilydd yn ddirwystr. Ystyrir yn sgil hyn felly fod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt diogelwch ffyrdd ac o ran Polisi CH33 CDUG.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.12 Mae rhai tai annedd i'w cael yn y cyffiniau. Ni ystyrir y byddai safle o 18 carafán deithiol yn golygu gor-ddatblygu o ran y nifer o garafanau ar y safle ei hun. Byddai'r bwriad yn cynyddu'r traffig fyddai'n defnyddio'r ffordd ond ni ystyrir y byddai hynny yn ychwanegiad sylweddol. Mae'r ffordd yma yn gwasanaethu nifer o dai annedd ond ni ystyrir y byddai'r cynnydd yma mewn traffig yn achosi niwed arwyddocaol o ran mwynderau lleol. Defnydd tymhorol fyddai i'r safle carafanau ac mae'n arferol rhoddi amod yn cyfyngu'r tymor i rhwng 1 Mawrth a 1 Hydref. Yn sgil hyn pe caniateir y cais byddai'r defnydd o'r safle yn un tymhorol ac ni fyddai carafanau wedi eu lleoli ar y tir trwy gydol y flwyddyn. Byddai hyn yn golygu na fyddai dim newid i fwynderau'r trigolion cyfagos y tu allan i'r tymor meddiannu. Ni ystyrir felly y byddai'r bwriad yn achosi niwed arwyddocaol i fwynderau'r gymdogaeth leol ac ystyrir y bwriad yn dderbyniol o agwedd Polisi B23 CDUG.

**Materion ieithyddol**

5.13 Mae Polisi A2 CDUG yn nodi y dylid gwrthod cynigion a fyddai oherwydd eu maint, eu graddfa neu eu lleoliad yn achosi niwed arwyddocaol i gydlyniad cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol cymunedau. Gan fod y bwriad yn ymwneud gyda datblygiad twristiaeth a fydd yn creu deg neu fwy o unedau gwyliau mae gofyn fod Datganiad Ieithyddol a Chymunedol yn cael ei baratoi er cydymffurfio gyda gofynion Canllaw Cynllunio Atodol : Cynllunio a'r Iaith Gymraeg. Derbyniwyd Datganiad Ieithyddol a Chymunedol fel rhan o'r cais ac ymgynghorwyd gyda'r Uned Polisi ar y Cyd. Mae sylwadau'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn datgan gan mai cynnig yn gwbl gyfan ar gyfer lleiniau unedau teithiol, ac nid lleiniau parhaol, sydd dan sylw ni chredir fod natur na graddfa'r datblygiad arfaethedig yn debygol o gael effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg. Ystyrir y byddai'r bwriad yn debygol o gael effaith bositif ar economi'r ardal ac felly o fudd i'r iaith Gymraeg ac y byddai'r datblygiad hefyd yn debygol o gyfrannu neu greu cyfleoedd economaidd i bobl leol. Awgrymir bod mesurau lliniaru yn cael eu cymryd i warchod a hyrwyddo'r iaith, megis enw Cymraeg ar y safle, arwyddion Cymraeg a / neu ddwyieithog a chyfleoedd i ddarparu gwybodaeth am hanes a diwylliant yr ardal. Awgrymir fod rheolwr y safle yn cysylltu gyda'r Fenter Iaith Leol (HunanIaith) i gael trafodaeth ynglŷn â mesurau a allai ychwanegu gwerth i'r busnes. Ni ystyrir felly y byddai'r bwriad yn achosi niwed arwyddocaol i gydlyniad cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol y gymuned a'i fod felly yn dderbyniol o safbwynt Polisi A2 CDUG.

**Materion Bioamrywiaeth**

5.14 Lleolir Ardal Cadwraeth Arbennig Corsydd Llyn a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Cors Geirch oddeutu 400 medr i'r dwyrain o'r safle. Nid oedd gan Gyfoeth Naturiol Cymru wrthwynebiad i'r bwriad ac ni ystyriwyd y byddai'r bwriad yn cael effaith ar y safleoedd dynodedig uchod. Derbyniwyd sylwadau'r Uned Bioamrywiaeth ar y cais ac nid oedd gwrthwynebiad i'r bwriad. Mae'r Uned

Bioamrywiaeth fodd bynnag wedi argymell rhoddi amod i ddiogelu'r coed a llwyni rhag cael eu torri. Os caniateir y cais byddai amod yn cael ei roddi ar y caniatâd i gyflwyno manylion tirlunio manwl gan gynnwys tirlunio oddi mewn i'r safle ynghyd ag atgyfnerthu'r ffiniau. Fel rhan o amod tirlunio o'r fath byddai'n bosibl gofyn am i'r ymgeisydd ddangos y coed a llwyni sydd i'w cadw fel rhan o'r datblygiad. Gellir wedyn roddi amod i sicrhau fod y gwaith tirlunio yn cael ei wneud yn unol gyda'r cynllun tirlunio cymeradwy. Ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt Polisïau B15 a B16 CDUG.

## 6. Casgliadau:

6.1 Oherwydd graddfa'r cais a'i leoliad ynghyd a'i nodweddion naturiol presennol ni ystyrir fod y safle yn ymwthiol yn y dirwedd ac ni ystyrir ei fod yn debygol o gael effaith niweidiol arwyddocaol ar fwynderau gweledol Ardal Gwarchod y Dirwedd. Yn sgil lleihau'r niferoedd o unedau y gofynnir amdanynt a chynnig gwelliannau i'r fynedfa nid oes gwrthwynebiad bellach i'r bwriad ar sail priffyrdd. Ni ystyrir ychwaith y byddai'n cael effaith andwyol ar fwynderau'r gymdogaeth leol. O safbwynt sicrhau fod y safle yn cael ei reoli yn gywir ystyrir y gellir sicrhau hyn drwy amodau perthnasol.

## 7. Argymhelliad:

7.1 Caniatau – amodau -

1. Cychwyn o fewn 5 mlynedd.
2. Unol â chynlluniau a gyflwynwyd.
3. Nifer o unedau ar y safle ar unrhyw un adeg i'w cyfyngu i 18.
4. Amodau cyfnod gosod carafanau/cyfnod gwyliau/symud y carafanau pan ddim mewn defnydd.
5. Dim storio ar y tir.
6. Rhestr cofnodi.
7. Tirlunio.
8. Amodau Priffyrdd - darparu mynedfa ag radiws 6 medr naill ochr, gostwng uchder y clawdd a'i gapio, a lledu'r 15m cyntaf o'r trac mynedfa.

Nodiadau:

1. Awgrymir fod mesurau lliniaru yn cael eu cymryd i warchod a hyrwyddo'r iaith, megis enw Cymraeg ar y safle, arwyddion Cymraeg a / neu ddwyieithog a chyfleoedd i ddarparu gwybodaeth am hanes a diwylliant yr ardal. Awgrymir fod rheolwr y safle yn cysylltu gyda'r Fenter Iaith Leol (HunanIaith) i gael trafodaeth ynglyn a mesurau a allai ychwanegu gwerth i'r busnes.
2. Angen cael trwydded safle carafanau.